**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Chwefror 16eg 2016 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Rob Parkes (is gadeirydd), Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Philip Stevens, a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

**Ymddiheuriadau:** Cyng Margaret Bowe,

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

**1. Datgan Diddordeb Personol.** Derbyniwyd y datganiad canlynol:

Cyng Mark Young – cais cynllunio - Colomendy Garage – personol.

**2. Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Ionawr 19eg 2016.**

**3. Materion yn codi:** Nid oedd unrhyw fater yn codi.

**4. Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) Colomendy Garage, Ffordd y Rhyl - adeiladu estyniad i fan MOT i ddarparu man gosod teiars.

(2) Tir yn Vale Park, Llwyn Goch, Stad Ddiwydiannol Colomendy - adeiladu adeilad diwydiannol yn cynnwys 3 uned ar wahân (defnydd B1, B2 & B8) gyda pharcio cysylltiol.

**5. Materion Cynllunio eraill:** (1) CSDd - Apêl gan Brenig Wind Ltd yn erbyn gwrthodiad ynglŷn â fferm wynt yn Llyn Brenig, Nantglyn - nodwyd.

(2) Cymorth Cynllunio Cymru - digwyddiadau hyfforddiant - nodwyd. Gofynnodd y Cyng Medwyn Williams os oedd Cynllunio CSDd yn dal i gynnal sesiynau hyfforddiant. Cytunwyd i wneud ymholiadau ynglŷn â hyn gan fyddai sesiwn hyfforddiant lleol yn ddefnyddiol i gynghorwyr newydd.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.43 o'r gloch.

Arwyddwyd:..........................................................................................................(cadeirydd)

Dyddiad:...........................................